

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/3749>

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Hydref 2016

Amser: 09.20 – 12.35

## Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Lynne Neagle AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Michelle Brown AC Hefin David AC Russell George AC John Griffiths AC Llyr Gruffydd AC Darren Millar AC Julie Morgan AC
Tystion:	Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Kara Richards, Llywodraeth Cymru Sam Evans, Llywodraeth Cymru Yr Athro Syr Ian Diamond
Staff y Pwyllgor:	Marc Wyn Jones (Clerc) Gareth Rogers (Ail Clerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Clerc) Anne Thomas (Ymchwilydd)



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. O dan Reol Sefydlog 17.24, datganodd Llyr Gruffydd AC ei fod yn gyn Is-lywydd ar Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, datganodd Lynne Neagle AC fod ei gŵr yn gweithio i Brifysgol De Cymru ar hyn o bryd, a datganodd Hefin David AC ei fod yn ddarlithydd cyswllt ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

### 2 Ymchwiliad i waith ieuenctid – Sesiwn dystiolaeth 3 –Llywodraeth Cymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol:

Canlyniadau'r ymarfer mapio cyfredol o ddarpariaeth y sector gwirfoddol o ran gwaith ieuenctid;

Astudiaethau achos yn dangos lle mae awdurdodau lleol a gweithwyr ym maes ieuenctid yn cydweithio'n dda ac enghreifftiau o ble mae angen cymorth pellach;

Yr holl wybodaeth a gyhoeddir ar y ddarpariaeth statudol ar gyfer gwaith ieuenctid, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch ffrydiau ariannu;

Ffigurau ar y lleihad mewn niferoedd staff yn ystod y blynyddoedd diweddar yn adran Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cymru;

Dadansoddiad o'r £36.6 miliwn sy'n cael ei wario rhwng awdurdodau lleol ar wasanaethau ieuenctid ledled Cymru;

Y themâu sy'n deillio o'r ymgynghoriad diweddar ar gynigion i gefnogi datblygiad Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol newydd.

### **3 Trafodaeth gyda'r Athro Syr Ian Diamond ar yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr Cymru**

Trafododd y Pwyllgor yr Adolygiad gyda Syr Ian Diamond.

### **4 Papurau i'w nodi**

Cafodd y papurau eu nodi.

**4.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol – rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 14 Medi**

**4.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant – rhagor o wybodaeth yn dilyn y llythyr a anfonwyd ar 15 Medi ynglŷn â'r cam gweithredu yng nghyfarfod 13 Gorffennaf**

**4.3 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem nesaf.**

Derbyniwyd y cynnig.

### **6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor**

Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith. Cytunwyd i gynnal ymchwiliadau i'r ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol a'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig. Cytunwyd hefyd i weithio ar y broses o

weithredu diwygiadau'r cwricwlwm a chraffu ar Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru.